

Cwestiynau Cyffredin

	Cwestiwn	Ateb
1	Beth yw Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol?	Mae Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion iechnyd rhywiol , e.e. Heintiau a Drosgrwyddir yn Rhywiol (STI), atal cenhedlu, perthnasoedd, gofal erthyglu a fasectomi. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydym yn cynnig nifer o wasanaethau 6 diwrnod yr wythnos.
2	Pam fod angen i Wasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol newid yng Ngwent?	Rydym am sicrhau ein bod yn darparu'r gofal gorau posibl i bobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Rhywiol yng Ngwent. Mae llawer o heriau'n wynebu'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys: - Mae'n anodd cael gafael ar staff a chadw'r gweithlu sydd ei angen i gynnal yr holl glinigau presennol ledled Gwent sy'n golygu bod yn rhaid i'r gwasanaeth gau ei glinigau dros dro a chanslo apwyntiadau. - Gyda llai o nyrsys a meddygon, yn aml, dim ond gwasanaethau cyfyngedig y gallwn eu darparu'n lleol. Mae hyn yn golygu na allwn ddarparu'r amrywiaeth lawn o driniaethau iechnyd rhywiol a bod yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth deithio i'n prif glinig yng Nghasnewydd. - Mae angen i'r gwasanaeth foderneiddio fel y gall ddarparu'r gofal mwyaf effeithiol o ansawdd uchel i'w gymuned. Nid yw hynny'n bosibl ar hyn o bryd oherwydd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhedeg ar hyn o bryd. - Mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau iechnyd rhywiol yn wahanol iawn o'i gymharu â blynyddoedd yn ôl. Gall meddygon teulu, Fferyllfeydd, hyd yn oed cyfleusterau hamdden ac addysg ddarparu gwasanaethau. Gellir gwneud profion gartref a gellir darparu dulliau atal cenhedlu yn flynyddol neu am gyfnod hirach. Mae hyn yn golygu bod llawer o glinigau yn y gymuned nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml.
3	Beth mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei newid?	Hoffem newid ein gwasanaeth fel y gall cleifion gael eu holl driniaeth iechnyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu yn lleol. Byddai hyn yn arbed cleifion rhag gorfod teithio yn bellach i ffwrdd, yn enwedig ar gyfer triniaeth fwy arbenigol. Hoffai'r gwasanaeth gyflawni hyn drwy fodel prif glinig a chlinigau hwb. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynnal y llinell ffôn brysbennu a sefydlwyd yn ystod pandemig COVID-19
4	Beth yw model prif glinig a chlinigau hwb a sut fyddai	Ym mhob ardal (Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Blaenau Gwent) mae'r Gwasanaeth Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol yn cynnig y byddai:

	hyn yn edrych yng Ngwent?	Clinig Hwb (clinig mwy sy'n darparu amrywiaeth lawn o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau mwy arbenigol fel Mewnblaniad a Choiliau atal cenhedlu, diagnosis a thriniaeth ar gyfer clefydau iechyd rhywiol mwy cymhleth a gwasanaethau allgymorth i gleifion mwy agored i niwed) Byddai'r clinigau hwb wedi'u lleoli yn yr ardaloedd canlynol: <table><tr><td>Casnewydd:</td><td>Canolfan Cordell</td><td>Blaenau Gwent:</td><td>Ysbyty Aneurin Bevan</td></tr><tr><td>Torfaen:</td><td>Clinig Cwmbrân</td><td>Sir Fynwy:</td><td>Ysbyty Nevill Hall</td></tr><tr><td>Caerffili</td><td colspan="2">Tŷ Oldway, Bargoed</td><td></td></tr></table> Prif Glinig (clinig llai sy'n darparu gwasanaethau craidd mwy arferol fel tabledi atal cenhedlu, profion ceg y groth a thrin clefydau iechyd rhywiol nad ydynt yn gymhleth). Bydd y rhain wedi'u lleoli yn yr ardaloedd canlynol: <table><tr><td>Casnewydd:</td><td>Ringland</td><td>Blaenau Gwent:</td><td>Tredegar</td></tr><tr><td>Torfaen:</td><td>Pont-y-pŵl</td><td>Sir Fynwy:</td><td>Cil-y-coed</td></tr><tr><td>Caerffili</td><td colspan="2">Ysbyty Ystrad Fawr (gweithdrefnau) a Denscombe (Canolfan gasglu)</td><td></td></tr></table>	Casnewydd:	Canolfan Cordell	Blaenau Gwent:	Ysbyty Aneurin Bevan	Torfaen:	Clinig Cwmbrân	Sir Fynwy:	Ysbyty Nevill Hall	Caerffili	Tŷ Oldway, Bargoed			Casnewydd:	Ringland	Blaenau Gwent:	Tredegar	Torfaen:	Pont-y-pŵl	Sir Fynwy:	Cil-y-coed	Caerffili	Ysbyty Ystrad Fawr (gweithdrefnau) a Denscombe (Canolfan gasglu)		
Casnewydd:	Canolfan Cordell	Blaenau Gwent:	Ysbyty Aneurin Bevan																							
Torfaen:	Clinig Cwmbrân	Sir Fynwy:	Ysbyty Nevill Hall																							
Caerffili	Tŷ Oldway, Bargoed																									
Casnewydd:	Ringland	Blaenau Gwent:	Tredegar																							
Torfaen:	Pont-y-pŵl	Sir Fynwy:	Cil-y-coed																							
Caerffili	Ysbyty Ystrad Fawr (gweithdrefnau) a Denscombe (Canolfan gasglu)																									
5	<i>Fydd unrhyw wasanaethau ddim ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth mwyach?</i>	Bydd y model y bwriedir ei ddefnyddio'n golygu y bydd mwy o wasanaethau ar gael yn lleol y gellir eu defnyddio y tu allan i oriau swyddfa arferol gan ei gwneud yn haws i gleifion gael triniaeth. Byddai gwasanaethau'n cael eu darparu gan dîm mwy o nyrsys a meddygon sydd â'r sgiliau i ddarparu pob lefel o ofal a thriniaeth.																								
6	<i>Fydd yr ailgynllunio y bwriedir ei wneud yn golygu bod yn rhaid i mi aros yn hirach am apwyntiad?</i>	Yn flaenorol, nid oedd unrhyw apwyntiadau. Roedd yn wasanaeth cerdded i mewn heb unrhyw sicrwydd y buasech yn cael eich gweld. Mae'r newid hwn yn golygu y cewch amser penodedig ar gyfer y gwasanaeth sydd ei angen arnoch. Yn ogystal â hyn, gyda thimau mwy, mae'r gwasanaeth yn cael ei gryfhau a byddai hyn yn lleihau'r angen i gau neu ganslo clinigau dros dro																								
9	<i>Ydi ein staff meddygol yn cefnogi'r newidiadau y bwriedir eu gwneud?</i>	Ydyn - Mae Gwasanaeth Iechyd Rhywiol ac Atgennedlol wedi bod yn trafod yr heriau a'r atebion posibl gyda'u staff gan gynnwys meddygon a nyrsys sydd wedi helpu i ddatblygu'r model sy'n cael ei gynniig.																								
10	<i>Ydw i'n gallu dewis pa glinig hwb yr wyf am fynd iddo?</i>	Ydych – ond efallai y byddwch hefyd yn gallu cael apwyntiad yn gynt mewn clinig gwahanol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o wasanaethau eraill fel eich meddyg teulu, fferyllydd lleol ac ati a allai ddarparu rhai gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae manylion yr holl wasanaethau iechyd rhywiol sydd ar gael yng Ngwent i'w gweld yma																								

11	Ar hyn o bryd rwy'n mynd i *Lleoliad X* ar gyfer fy *****, fydd hyn yn newid ar ôl yr ailgynllunio y bwriedir ei wneud?	Ni fydd rhai o'r lleoliadau y gwneir llai o ddefnydd ohonynt ar agor mwyach, ond bydd gwasanaeth arall yn eich cymuned. Mae pob un o'r prif glinigau a'r clinigau hwb wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleusterau parcio da (lle bo'n bosibl). Yn ogystal â hyn, mae llawer o wasanaethau eraill fel eich meddyg teulu, fferylllydd lleol ac ati a allai ddarparu rhai gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae manylion yr holl wasanaethau iechyd rhywiol sydd ar gael yng Ngwent i'w gweld yma
12	Roeddwn i'n arfer mynd i *Lleoliad Y* ond nid yw hyn yn opsiwn bellach gyda'r newidiadau y bwriedir eu gwneud, lle fydda i'n mynd nawr?	Pan fyddwch yn ffonio'r llinell brysbennu, gallwch drafod ble rydych yn cael eich gweld gyda'r nyrs. Yn ogystal â hyn, mae llawer o wasanaethau eraill fel eich meddyg teulu, fferylllydd lleol ac ati a allai ddarparu rhai gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae manylion yr holl wasanaethau iechyd rhywiol sydd ar gael yng Ngwent i'w gweld yma .
13	Oes mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i'r clinigau hwb?	Oes, mae pob clinig hwb ar y prif lwybrau bysiau ac mae gorsaf reilffordd gerllaw. Mae rhagor o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus leol ar gael yma .
14	Fydd yn rhaid i mi deithio yn bellach i gael triniaeth?	Mae'r gwasanaeth wedi ceisio sicrhau bod gan bob cymuned fynediad at wasanaethau iechyd rhywiol craidd, arferol yng Ngwent ac mae'r model y bwriedir ei ddefnyddio hefyd yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau mwy arbenigol heb orfod teithio i Ganolfan Cordell yn Ysbyty Brenhinol Gwent (y model presennol). Cynhaliwyd dadansoddiad o amseroedd teithio sy'n edrych ar sut mae defnyddwyr presennol yn cael mynediad at wasanaethau sy'n awgrymu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o gleifion deithio yn bellach. Fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth yn parhau i adolygu nifer y clinigau y mae'n eu darparu, ac os oes angen, bydd clinigau ychwanegol yn cael eu darparu.
15	Sut y dewiswyd lleoliadau'r prif glinigau a'r clinigau hwb?	Dewiswyd lleoliad y prif glinigau a'r clinigau hwb trwy: • Gynnal dadansoddiad o amseroedd teithio sy'n edrych ar sut mae defnyddwyr presennol yn cael mynediad at wasanaethau. • Nodi'r clinigau hynny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac sydd wedi'u lleoli'n agos at glinig iechyd rhywiol arall. • Nodi'r clinigau hynny sydd â mynediad da e.e. trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a threfniadau parcio. • Edrychodd y gwasanaeth hefyd ar ba wasanaethau iechyd rhywiol eraill a ddarparwyd drwy feddygon teulu, fferyllwyr ac ati y gellid eu defnyddio fel dewis arall.
16	Beth sy'n digwydd nesaf?	Mae'r gwasanaeth wedi trafod ei gynlluniau gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol ac maent wrthi'n ymgysylltu â'r cyhoedd a gwasanaethau eraill, pobl sydd â diddordeb gweithredol yn y cynigion hyn. Mae hyn yn cael ei wneud drwy amryw o weithgareddau a digwyddiadau a amlinellir yma . Yn ogystal â hyn, mae'r gwasanaeth yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n helpu i weld a oes grwpiau penodol o bobl sy'n agored i niwed y gallai'r cynigion hyn effeithio'n negyddol

		arnynt. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei hadolygu a'i dadansoddi a gwneir penderfyniad ynghylch a fydd y cynigion yn symud ymlaen.
17	Sut alla i gymryd rhan?	Dyma ddechrau ein sgwrs gyda chi am Wasanaethau Iechyd Rhywiol yng Ngwent. Hoffem glywed eich barn am yr hyn rydych wedi'i ddarllen. Rydym yn gofyn yn benodol: - P'un ai ydych chi'n deall beth yw Gwasanaethau Iechyd Rhywiol - Sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd - Yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau a rhai o'r opsiynau sydd wedi'u hystyried ar gyfer trefnu a darparu'r gwasanaethau yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r tudalennau gwe penodol, yn ogystal â chanllawiau ar sut y gallwch gymryd rhan a mynegi eich barn. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: www.abuhb.nhs.wales/